Terfyn cyflymder newydd o 20mya yn cael ei gyflwyno mewn ardal helaeth o Lanelli

Mae terfyn cyflymder newydd o 20mya yn cael ei gyflwyno mewn ardal helaeth o Lanelli fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i ostwng y terfyn cyflymder sydd wedi'i rhagosod yn genedlaethol.

Mae Gogledd Llanelli, sy'n cynnwys Dafen, rhai rhannau o Felin-foel ac ardal Llanerch, wedi'i dewis fel un o wyth cymuned yng Nghymru i dreialu terfyn cyflymder cenedlaethol arafach o 30mya i 20mya mewn ardaloedd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr.

Mae tystiolaeth yn dangos bod cyflymderau arafach yn arwain at lai o wrthdrawiadau ac yn lleihau difrifoldeb anafiadau, ac yn enwedig mewn mannau lle cyflwynir terfynau cyflymder o 20mya, mae gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael eu hanafu.

Dywedodd y Cynghorydd Hazel Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd: “Mae cyflymderau arafach o fudd i’r gymuned mewn sawl ffordd, yn ogystal â lleihau nifer y gwrthdrawiadau a’r rhai sy'n cael eu hanafu ar ein ffyrdd, maent yn cael effaith gadarnhaol ar ein llesiant cyffredinol a’r amgylchedd lleol.”

Os bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r cynnig i ostwng y terfyn cyflymder o 20mya sydd wedi'i rhagosod, Cymru fydd y rhanbarth cyntaf yn y DU i weithredu'r newid.

Mae'n cael ei gyflwyno mewn wyth cymuned ledled Cymru i gasglu data a datblygu ymagwedd arferion gorau cyn ei gyflwyno'n llawn yn 2023. Mae'r ardaloedd eraill yn cynnwys Llandudoch yn Sir Benfro, Y Fenni, Gogledd Caerdydd Canolog, Severnside yn Sir Fynwy, Bwcle yn Sir y Fflint, Cil-ffriw yng Nghastell-nedd Port Talbot, a Saint-y-brid ym Mro Morgannwg.

Dywedodd Julie James, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Newid yn yr Hinsawdd: "Mae terfynau cyflymder arafach yn achub bywydau, mae'r dystiolaeth yn glir. Drwy newid y terfyn cyflymder sydd wedi'i rhagosod i 20mya mewn ardaloedd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr ledled Cymru, gallwn wneud ein strydoedd yn lleoedd mwy diogel a chroesawgar i feicwyr a cherddwyr, a helpu i gael effaith gadarnhaol ar ein hamgylchedd.”

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i bobl gael dweud eu dweud ar y cynnig. I gyflwyno eich barn, ewch i'r adran ymgyngoriadau ar wefan Llywodraeth Cymru cyn 1 Hydref.

YN Y RHIFYN HWN:

Terfyn Cyflymder 20mya yn Llanelli
Newidiadau yn Rheolau’r Ffordd Fawr
Wedi gweld, Wedi tynnu llun, Anfonwch e
E-sgwteri mewn Perchnogaeth Breifat
Peidiwch â Gyrru wedi Blino
Cadwch Gwynedd yn Ddiogel

Fersiwn Newydd Rheolau'r Ffordd Fawr i Wneud Teithio Llesol yn Fwy Diogel ac yn Haws



Mae newidiadau yn Rheolau'r Ffordd Fawr, gan gynnwys gosod cerddwyr ar frig "hierarchaeth defnyddwyr ffyrdd" newydd, wedi'u cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Grant Shapps.

Bydd y newidiadau arfaethedig, sydd i fod i gael cymeradwyaeth Senedd y Deyrnas Unedig yn yr hydref, hefyd yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr ar groesfannau sebra a chyffyrdd yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth bellach o beryglon goryrru.

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd mawr mewn teithio llesol a welwyd drwy gydol y pandemig ac i wella diogelwch i feicwyr a cherddwyr, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi y bydd fersiwn newydd Rheolau'r Ffordd Fawr yn cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

- **hierarchaeth o ddefnyddwyr ffyrdd sy'n sicrhau mai defnyddwyr ffyrdd sy'n gallu gwneud y niwed mwyaf sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf i leihau'r perygl y gallan nhw ei achosi i eraill**
- **cryfhau blaenoriaeth cerddwyr ar balmentydd ac wrth groesi neu aros i groesi'r ffordd**
- **canllawiau ar bellter a chyflymder pasio diogel a sicrhau bod gan feicwyr flaenoriaeth wrth gyffyrdd wrth deithio'n syth ymlaen**

Dywedodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Grant Shapps,
"Mae miliynau ohonon ni wedi canfod dros y flwyddyn ddiwethaf fod beicio a cherdded yn ffyrdd gwych o gadw'n heini, lleddfu tagfeydd ar y ffyrdd a gwneud eich rhan dros yr amgylchedd. Wrth inni adeiladu'n ôl yn wyrddach ar ôl y pandemig, rydyn ni'n benderfynol o gadw'r duedd honno i fynd drwy wneud teithio llesol yn haws ac yn fwy diogel i bawb."

Mae rhagor o fanylion ar gael yma.

Wedi gweld? Wedi tynnu llun? Anfonwch e!

Through Gall aelodau o'r cyhoedd gyflwyno tystiolaeth o yrru gwrthgymdeithasol erbyn hyn, o ganlyniad i waith Heddlu Gwent a'r bartneriaeth camerâu diogelwch, Gan Bwyll.

Trwy'r cynllun presennol, Ymgyrch Snap, mae defnyddwyr ffyrdd wedi gallu cyflwyno tystiolaeth o yrru peryglus sydd wedi'i chofnodi ar gamerâu dashfwrdd. Nawr, bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu anfon tystiolaeth o ddefnydd ffyrdd gwrthgymdeithasol yn uniongyrchol at yr heddlu. Gellir cyflwyno tystiolaeth o lawer o wahanol fathau o ffynonellau, gan gynnwys ffonau symudol, teledu cylch cyfyng a dyfeisiau recordio eraill.

Dywedodd y Prif Arolygydd Amanda Thomas, "Mae cadw ein ffyrdd a'n cymunedau yn ddiogel yn flaenoriaeth i'n holl swyddogion. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn bla i gymunedau, a phan fo'r math hwn o ymddygiad yn symud i'n ffyrdd, gall arwain at niwed neu waeth.

"Mae'r cynllun hwn yn annog cymunedau lleol i fod â'r hyder i ddod at yr heddlu ac adrodd unrhyw bryderon y gallai fod ganddyn nhw ynglŷn â'u strydoedd a'u ffyrdd, a darparu gwell gwasanaeth plismona gyda'r dystiolaeth sydd ei hangen i weithredu."

Gellir cyflwyno tystiolaeth o yrru gwrthgymdeithasol drwy wefan Gan Bwyll trwy lenwi ffurflen syml ar-lein. Trwy wneud adroddiad, gallai fod yn ofynnol i aelodau'r cyhoedd fynd i'r llys er mwyn cadarnhau bod yr wybodaeth y maen nhw wedi'i rhoi yn gywir ac yn cynrychioli'r hyn a ddigwyddodd.

Os ydych chi'n reidio e-sgwter sy'n eiddo preifat yn anghyfreithlon – STOPIWCH!

Yr haf hwn, efallai y bydd rhai pobl yn ystyried prynu e-sgwter, sydd wedi dod yn olygfa fwyfwy cyffredin gan fod pobl yn dal i edrych ar ddewisiadau eraill yn lle cludiant cyhoeddus neu ffordd i ddefnyddio llai ar y car.

Er hynny, mae'n anghyfreithlon defnyddio e-sgwter preifat ar ffyrdd cyhoeddus, palmentydd neu lwybrau beicio. Hoffai Diogelwch Ffyrdd Cymru gynghori unrhyw un sy'n ystyried prynu neu ddefnyddio e-sgwter eu bod mewn perygl o gael dirwy o £300, chwe phwynt cosb ar eu trwydded yrru a gweld yr e-sgwter yn cael ei atafaelu.

Ar ben hynny, i unrhyw yrrwr neu feiciwr modur sydd wedi pasio'u prawf gyrru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, fe allai arwain at eu hanghymhwyso rhag gyrru a'r angen i ail-gymryd y prawf theori a'r prawf gyrru ymarferol.

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, "Mae treialon e-sgwteri i'w rhentu'n digwydd mewn rhai rhannau o Loegr, ond dim ond yn yr ardal leol sy'n cynnal y treial y dylai e-sgwteri gael eu defnyddio.

"Ar hyn o bryd yng Nghymru, yr unig le i reidio e-sgwter yn gyfreithlon yw tir preifat gyda chaniatâd y tirfeddiannwr – ym mhobman arall mae'n groes i'r gyfraith."

Efallai na fydd pobl yn sylweddoli eu bod yn effeithio ar neb drwy reidio e-sgwter yn anghyfreithlon, ond maen nhw'n gallu bod yn hynod frawychus i rywun sydd â cholled golwg neu golled clyw.

Ychwanegodd Teresa Ciano, "Rydyn ni'n gofyn i bobl ystyried sut bydden nhw'n teimlo pe baen nhw, neu aelod o'u teulu â nam ar eu golwg neu eu clyw, yn gwirioneddol ofni cael eu taro gan e-sgwter bob tro yr aen nhw allan. Rydym yn ymwybodol bod rhai pobl yn reidio e-sgwteri ar y palmant heb ystyried diogelwch pobl eraill. Mae hyn yn gwbl annerbyniol ac rydym yn ddiolchgar bod ein cydweithwyr yn yr heddlu yn cymryd camau cadarn yn erbyn yr unigolion hyn."

Dywedodd Andrea Gordon, Rheolwr Materion Allanol, Cŵn Tywys Cymru, "Rydyn ni'n bryderus iawn am y cynnydd yn y defnydd o e-sgwteri. Mae pobl sydd wedi colli eu golwg, sy'n methu eu clywed na'u gweld yn agosáu, mewn perygl arbennig.

"Dydyn ni ddim yn disgwyl dod o hyd i e-sgwteri ar y palmant, a gall methu o drwch blewyn â chael eich taro gan e-sgwter fod mor frawychus nes bod person sydd â cholled golwg yn stopio mynd allan yn annibynnol. Bydd e-sgwteri'n cael effaith ddramatig a di-droi'n-ôl ar amgylchedd y stryd. Fe ddylai'n palmentydd ni fod yn ddiogel i bawb."

Er bod yna groeso i leihau'r defnydd ar y car, yn enwedig ar gyfer siwrneiau lleol, gallai prynwyr e-sgwteri fod yn rhoi eu diogelwch eu hunain ac eraill mewn perygl yn ddiarwybod. Mae llawer o ddulliau teithio eco-gyfeillgar eraill, fel cerdded neu feicio, sy'n cael eu hybu gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru ac sy'n gyfreithlon.

Ar ôl gweithio'n galed i'w ennill, peidiwch â gwastraffu'ch arian ar brynu e-sgwter – efallai y bydd manwerthwyr yn hapus i werthu un i chi ond fe allai gael ei gipio oddi arnoch yr eiliad y ceisiwch ei ddefnyddio mewn man cyhoeddus.

Hoffech Chi fod wedi Aros yn Hirach yn eich Gwely Heddiw?

Os ydych chi wedi cael noson anodd yn cysgu oherwydd y tywydd neu am fod pethau ar eich meddwl wedi'ch cadw'n effro, gall blinder ddal i fyny â chi drannoeth – a hynny ymhell cyn ichi fynd i'r gwely yn aml.

Ddylai neb fychanu peryglon gweithredu cerbyd pan fyddan nhw wedi blino. All gyrrwr neu reidiwr sydd wedi syrthio i gysgu ddim brecio na gwyro felly yn anffodus mae gwrthdrawiadau'n tueddu i gynnwys gwrthdrawiad cyflym, sydd yn aml yn arwain at farwolaeth neu anaf difrifol.

Efallai y bydd yn anodd osgoi gyrru neu reidio os ydych chi'n dibynnu ar gerbyd i gyrraedd adref o'r gwaith, ond os byddwch yn dechrau teimlo'n flinedig mae'n hanfodol nad ydych yn parhau â'ch taith - hyd yn oed os yw'ch cartref o fewn ychydig filltiroedd yn unig. Stopiwch, cymerwch saib a gwnewch yn siŵr na fyddwch yn cychwyn eto heblaw pan fyddwch chi'n ddigon effro i wneud.

Mae'r rhan fwyaf o'r dulliau mae gyrwyr a reidwyr yn eu defnyddio i geisio aros yn effro ar y ffordd yn aneffeithiol a dim ond fel mesurau brys y dylen nhw gael eu hystyried, i ganiatáu amser i ddod o hyd i rywle diogel i stopio.

Yfed o leiaf 150 mg o gaffein a chysgu am ryw 15 munud yw'r unig fesurau sy'n helpu i leihau blinder, am gyfnod dros dro.

Mae gwrthdrawiadau sy'n cael eu hachosi gan yrwyr blinedig yn fwyaf tebygol o ddigwydd:

- **ar siwrneiau hir ar ffyrdd undonog, fel traffyrdd**
- **rhwng 2am a 6am**
- **rhwng 2pm a 4pm (yn enwedig ar ôl bwyta, neu gymryd hyd yn oed un ddiod alcoholig)**
- **ar ôl cael llai o gwsg na'r arfer**
- **os ydych chi'n cymryd meddyginiaethau sy'n gwneud ichi deimlo'n flinedig**
- **ar ôl oriau gwaith hir neu ar y siwrnai adref ar ôl sifftiau hir, yn enwedig sifftiau nos**

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru:

"Mae llawer o bobl wedi dewis gwyliau gartref eleni yn hytrach na'u gwyliau tramor arferol. O ganlyniad, efallai na fydd nifer o bobl wedi arfer â gyrru pellter hir ledled y wlad i gyrraedd eu cyrchfan gwyliau.

"Yn ogystal â gwirio bod eich cerbyd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y ffordd cyn gadael cartref, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynllunio'ch llwybr i gynnwys seibiannau gorffwys rheolaidd (o leiaf 15 munud bob dwy awr) ac os oes angen hynny, cynlluniwch aros dros nos os yw'r pellter yn ormod i deithio'n rhesymol mewn un diwrnod."

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn atgoffa pawb bod anwybyddu neu fychanu peryglon parhau â'r daith pan fyddwch chi wedi blino yn naïf ac yn anghyfrifol.

P'un a ydych chi'n teithio 2 filltir neu 200 milltir, os ydych chi wedi blino, byddwch yn onest gyda chi'ch hun: stopiwch a chymerwch saib.

Annog modurwyr i barchu'r rheolau a chadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel

Unwaith eto eleni, mae Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru yn cydweithio i daclo problemau sy'n gysylltiedig â pharcio anghyfreithlon ac anghyfrifol.

Gyda niferoedd digynsail o bobl yn ymweld â Gwynedd, mae parcio anghyfrifol yn rhai o brif gyrchfannau'r sir yn destun pryder.

Mae swyddogion wedi bod yn targedu'r lleoliadau yma i gadw'r ardal yn ddiogel i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

"Gyda thywydd anhygoel ar ddechrau gwyliau'r haf a chyfyngiadau yn golygu fod pobl ddim yn cael teithio dramor, mae nifer o gymunedau Gwynedd yn gweld niferoedd uchel o ymwelwyr ar hyn o bryd.

"Rydan ni'n cydweithio efo ein partneriaid i annog modurwyr i ddefnyddio synnwyr cyffredin pan fyddan nhw'n ymweld â Gwynedd er mwyn cadw'r ardal yn ddiogel i bawb.

"Gofynnwn i bobl i gynllunio eu taith o flaen llaw, defnyddio'r gwasanaethau bws fel y Sherpa os byddwch yn bwriadu mynd i gerdded y mynyddoedd, ac os ydi maes parcio yn llawn iddynt chwilio am leoliad arall addas.

"Mae rhai enghreifftiau wedi bod yr haf yma o bobl yn parcio mewn modd anaddas, sy'n peryglu'r ffordd i yrwyr eraill, beicwyr a cherddwyr ac yn achosi problemau mynediad difrifol i gerbydau'r gwasanaethau brys, gan gynnwys gwirfoddolwyr achub mynydd. Mae hynny'n hollol annerbyniol.

"Mae ein neges yn syml sef mwynhau'r ardal ond dilynwch y rheolau, maent yno i gadw pawb yn saff. Os byddwch yn anwybyddu'r rheolau, mae'n debyg iawn y byddwch yn wynebu dirwy neu mae'n bosib y bydd eich cerbyd yn cael ei gludo oddi yno gan yr awdurdodau."

Mae arwyddion wedi eu gosod mewn sawl man i rybuddio modurwyr bod cerbydau y rhai sy'n torri'r rheolau yn debyg o gael eu cludo gan yr heddlu.

Meddai'r Uwch-arolygydd Neil Thomas, Heddlu Gogledd Cymru:

"Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol i helpu i leihau'r risg i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

"Mae'r parcio anghyfrifol a pheryglus rydym eisoes wedi'i weld mewn rhai ardaloedd nid yn unig yn peryglu bywydau ond mae hefyd yn atal mynediad i gerbydau brys.

"Tra ein bod yn gwerthfawrogi bod pobl yn mynd allan o mwy er mwyn mwynhau'r tywydd a'r golygfeydd, rydym yn annog pobl i fod yn gyfrifol a meddwl ble maen nhw'n parcio ac i wneud defnydd llawn o'r cyfleusterau parcio a theithio sydd ar gael.

"Bydd cerbyd unrhyw un sydd wedi parcio ar y clirffordd neu yn achosi rhwystr yn cael ei symud ar draul ei hunain. Cymrwch sylw o'r rhybudd os gwelwch yn dda."